# ROBERTS, ROBERT (1680 - 1741), clerigwr

**Enw:** Robert Roberts
**Dyddiad geni:** 1680
**Dyddiad marw:** 1741
**Rhiant:** Henry Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1680 yn fab i Henry Roberts, ' gent., of Llandyssen, Denbighshire ' - Llandysilio, mae'n debyg. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, fis Mawrth 1698/9, 'yn 18 oed,' a graddiodd yn 1702. Penodwyd ef yn ficer y Waun (' Chirk ') yn 1709, a bu farw yno yn 1741, yn 61 oed meddai carreg ei fedd. Cyhoeddodd yn 1720 lyfryn dwy-ieithog 'gan fod trigolion plwy'r Waun rai ohonynt yn Gymraeg a rhai yn Saesneg,' meddai ei ragymadrodd. Y teitl Cymraeg yw *Sacrament Gatechism, neu Gatechism i barattoi rhai i dderbyn Sacrament Swpper yr Arglwydd*.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 326

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 276

## Gweithiau

Robert Roberts, *A Du-glott-exposition, of the Creed the Ten Commandments, and The Lords Prayer, calculated for the Borders of England and Wales, but particularly for the use of the Parish of Chirk, whose inhabitants are partly Welsh and partly English* (Shrewsbury ca.1730)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66343399

Wikidata: Q7349313

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu